Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Higher Education Funding Council for Wales

hefcw

Datganiad i'r wasg

Dyddiad: 1 Gorffennaf 2009

Teitl: Ymrwymiad prifysgolion Cymru i bobl ifanc mewn gofal ac sy'n gadael gofal

Mae mwy nag erioed o brifysgolion yng Nghymru wedi dangos eu hymrwymiad i helpu pobl sydd mewn gofal neu sydd wedi gadael gofal i wireddu eu potensial llawn.

Erbyn hyn mae wyth prifysgol ac un coleg addysg bellach yng Nghymru wedi ennill Nod Ansawdd sy'n cydnabod eu hymrwymiad i ddarparu cymorth ac arian ychwanegol i bobl o bob oedran sydd â chefndir gofal. Mae Nod Ansawdd Ymddiriedolaeth Frank Buttle ar gyfer Ymadawyr Gofal mewn Addysg Uwch yn cael ei ddyfarnu i sefydliadau sydd wedi gwella sgiliau academaidd pobl sy'n gadael gofal i'w helpu i lwyddo yn yr ysgol, coleg neu brifysgol.

Mae Prifysgol Morgannwg ac Athrofa Prifysgol Cymru Caerdydd wedi ymuno â Phrifysgolion Aberystwyth, Bangor, Caerdydd, Glyndŵr ac Abertawe, a Phrifysgol Fetropolitan Abertawe, fel sefydliadau sydd wedi ennill y Nod Ansawdd. Coleg Sir Gâr yw'r coleg addysg bellach cyntaf yng Nghymru i sicrhau'r gydnabyddiaeth bwysig hon.

Meddai'r Athro Philip Gummett, Prif Weithredwr CCAUC: "Mae sefydliadau addysg uwch Cymru wedi gwneud cryn gynnydd wrth ddatblygu cymorth ar gyfer plant dan ofal ac ymadawyr gofal ers lansio'r Nod Ansawdd yng Nghymru yn 2006. Mae gan Gymru ganran mwy o brifysgolion gyda'r Nod Ansawdd na

gweddill y DU ac rydw i'n canmol y sector am ei ymateb a'i ymrwymiad cadarnhaol iawn i'r dysgwyr hyn."

Mae prifysgolion yn cynnig ystod o ddarpariaeth i bobl sy'n gadael gofal gan ddibynnu ar eu hanghenion unigol, gan gynnwys cyngor cyfrinachol, bwrsarïau a phecynnau cymorth personol, a llety drwy gydol y flwyddyn.

Ym mis Mehefin, cynhaliwyd cynhadledd ranbarthol lwyddiannus gan Bartneriaeth Ymgyrraedd yn Ehangach Gorllewin a Chanolbarth Cymru a dynnodd sylw at y cymorth sydd ar gael i ymadawyr yn yr ardal. Mae Partneriaeth De Orllewin Cymru wrthi'n datblygu llyfryn gwybodaeth a chyngor i ymadawyr gofal drwy Gymru a gyhoeddir yn yr hydref. Datblygwyd rhaglen 'Paratoi ar gyfer Coleg' gan Bartneriaeth De Ddwyrain Cymru (First Campus) sy'n cynnig cyngor ac arweiniad i ymadawyr gofal sy'n gobeithio parhau â'u haddysg, ac mae Partneriaeth Gogledd Cymru wedi datblygu rhaglen hyfforddi i ofalwyr maeth ac asiantaethau gofal i'w galluogi i fentora'r plant yn eu gofal.

Diwedd

Nodiadau:

I gael rhagor o wybodaeth cysyllter â

CCAUC: Emma Raczka, Rheolwr Cyfathrebiadau, 029 2068 2225
emma.raczka@hefcw.ac.uk

Mae **Ymddiriedolaeth Frank Buttle**, sy'n darparu grantiau a chymorth i alluogi pobl ifanc i ymgymryd â chyrsiau mewn prifysgolion a sefydliadau addysg uwch eraill, wedi creu Nod Ansawdd sy'n cydnabod sefydliadau sy'n gwneud ymdrech arbennig i ddarparu cymorth ar gyfer myfyrwyr sydd wedi bod mewn gofal cyhoeddus.
www.buttletrust.org/

Sefydlodd CCAUC y cynllun **Ymgyrraedd yn Ehangach** yn 2002 i oresgyn rhwystrau ac ehangu mynediad i ddysgu. Amcanion y cynllun Cymru-eang yw helpu i greu cymdeithas gynhwysol a diweddaru sgiliau er lles yr economi.

Corff a Noddir gan Lywodraeth y Cynulliad yw **Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru** (CCAUC), sy'n gyfrifol am weinyddu cyllid y trefnir ei fod ar gael gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i gefnogi:

- addysg mewn sefydliadau addysg uwch (SAUau);
- ymchwil y mae SAUau yn ymgymryd ag ef; a
- chyrsiau addysg uwch mewn colegau addysg bellach.

Mae CCAUC hefyd yn gyfrifol am achredu darparwyr **hyfforddiant addysgu cychwynnol** ar gyfer athrawon ysgol a chomisiynu ymchwil i wella safonau athrawon a hyfforddiant i athrawon.

Yn ychwanegol i'w gyfrifoldebau cyllid, mae CCAUC yn rhoi cyngor i Lywodraeth Cynulliad Cymru ar anghenion, dyheadau a phryderon ynghylch cyllid y sector addysg uwch yng Nghymru.